# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## SOC(3)-01-11 : Papur 1

### Arsylwadau rhagarweiniol ar y Cod Ymddygiad a'r Rheolau Sefydlog a'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau Cynulliad – Mawrth 2011

Mae adroddiad gan y Comisiynydd Safonau ar ei arsylwadau rhagarweiniol ar y Côd Ymddygiad a'r Rheolau Sefydlog a'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau Cynulliad ynghlwm fel atodiad i'r papur hon.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

# Y Comisiynydd Safonau
# Commissioner for Standards

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Arsylwadau rhagarweiniol ar y Cod Ymddygiad a'r Rheolau Sefydlog a'r Weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau Cynulliad

1. Fe'm penodwyd yn Gomisiynydd Safonau ar 1 Rhagfyr 2010 ac felly sylwadau cynnar am nifer o faterion yw'r hyn a ddilynir.

2. Yn dilyn sgwrs â Chadeirydd y Pwyllgor, Jeff Cuthbert, cytunwyd y gallai adroddiad cryno gennyf fi, ynghylch pa feysydd y gallai Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") y Pedwerydd Cynulliad roi sylw iddynt, fod yn ddefnyddiol ar gyfer cynnig dull o weithredu yn y dyfodol.

3. Cyn bwrw ymlaen â fy sylwadau dylwn nodi nad oes dim i awgrymu bod problemau difrifol yn bodoli ynghylch ymddygiad Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â'r materion sydd wedi dod i law hyd yma. Yn wir, mae'n ymddangos mai'r gwrthwyneb sy'n wir.

4. Fodd bynnag, gan fod gofyn i mi fod yn rhagweithiol mewn perthynas â chynnal a hyrwyddo Safonau yn rhinwedd fy swydd fel Comisiynydd, credaf fod y cyfuniad o Gynulliad newydd a phwerau deddfwriaethol newydd yn cynnig cyfle pwysig i ni edrych ar y cyfarwyddiadau a'r canllawiau i Aelodau, a'r systemau ar gyfer ymdrin â chwynion – a'u hadnewyddu, os oes angen – er mwyn cadw ffydd y cyhoedd ynom.

### Y Cod Ymddygiad a'r Rheolau Sefydlog

5. Serch nifer o welliannau i God Ymddygiad Aelodau'r Cynulliad, maent yn flynyddoedd oed erbyn hyn. Mae'n ddogfen sy'n cyfeirio at nifer o Reolau Sefydlog (neu rannau ohonynt), sy'n cynnwys canllawiau i Aelodau ar sut i ymddwyn ac yn ceisio bod yn agored i'r cyhoedd wrth geisio pennu pa safonau ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan Aelodau Cynulliad.

6. Mae'n bwysig, er lles Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd, bod y Cod yn glir a chynhwysfawr ac, lle mae'r Cod yn ystyried Safonau Ymddygiad penodol,

ei fod yn eglur. Dylai'r un peth fod yn wir am reolau ymddygiad sydd wedi'u diffinio yn y Rheolau Sefydlog.

7. O brofiad, mae nifer o feysydd yn y Cod a'r Rheolau Sefydlog perthnasol lle cafwyd trafferthion, neu y gellir cael trafferthion, ynghylch dehongli a/neu amwysedd (er enghraifft, beth yw ystyr a phwrpas Adran 2 o'r Cod Ymddygiad/a yw'r rheolau yn diffinio'r gwahaniaethau rhwng rolau Aelodau rhanbarthol ac etholaethol yn glir ac yn foddhaol/beth yw ystyr Rheol Sefydlog 31.7 "...[yn] fwy na'r fantais a allai ddod i ran y personau y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt yn gyffredinol"?)

8. Mae sicrwydd yn hanfodol mewn maes cynnal safonau. Gan hynny, rwy'n argymell bod y Pwyllgor yn:

   - adolygu'r cyfarwyddiadau a'r canllawiau sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad drwy ddiweddaru'r Cod Ymddygiad;
   - ystyried termau a digonolrwydd y Rheolau Sefydlog perthnasol, ac yn eu diwygio yn ôl yr angen; a
   - cynhyrchu un ddogfen/llyfryn, wedi'i gyfundrefnu, sy'n ymdrin â Safonau Ymddygiad ac sy'n hawdd i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd gael gafael arni.

## Y weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion

9. Cafodd y weithdrefn bresennol ei chymeradwyo ddiwethaf gan y Pwyllgor ym mis Ionawr 2008. Mae'r weithdrefn yn ceisio sicrhau bod gan yr achwynydd lwybr clir a hawdd i'w ddilyn er mwyn gwneud cwyn am Aelod Cynulliad, a bod yr Aelod Cynulliad dan sylw yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gŵyn a phob cyfle posibl i ateb y gŵyn yn ei erbyn. Mae'r ddau nod hyn yn rhai cywir a dyma'r gofyniad lleiaf a fyddai'n ddisgwyliedig gan weithdrefn o'r fath.

10. O brofiad – tra'n Gomisiynydd Safonau, a chyn hynny – rwy'n mentro awgrymu bod angen ailystyried rhai agweddau ar y weithdrefn er mwyn symleiddio a chyflymu'r broses, heb gyfaddawdu'r angen i fod yn agored ac i gyfiawnder naturiol fod yn drech. Heb fynd i ormod o fanylder, gellid ailystyried yr agweddau a ganlyn, ymhlith agweddau eraill, er gwell:

- a ddylid cael cyfnod cychwynnol (cyn y Cyfnod Archwilio Rhagarweiniol) sy'n ceisio pennu a yw "cwyn" yn dderbyniadwy, gan fod cwynion yn cael eu gwneud o dro i dro nad ydynt yn bodloni pwynt 3.1.vi o'r weithdrefn gwyno (h.y. cwyn ynghylch "safon" cynrychiolaeth gan Aelod Cynulliad);

- y gydberthynas rhwng 3.1.vi, a 4.1 – mae'n aneglur pa mor bell all y Comisiynydd fynd cyn penderfynu a yw pwynt 3.1.vi wedi'i fodloni, heb orfod dechrau ar y broses o gynnal archwiliad swyddogol o dan bwynt 4.1 o'r weithdrefn;

- yn yr un modd, mae adran 10 o'r weithdrefn yn gofyn dod o hyd i "ffeithiau" (heb anghydfod) yn ystod yr ymchwiliad rhagarweiniol a bod ymddiheuriad yn cael ei roi – pam na allai'r weithdrefn hon fod ar gael (mewn achosion priodol, a phan fo'r Cadeirydd yn cytuno â hynny) yn ystod unrhyw gyfnod o'r broses gwyno?;

- o dan bwynt 2.3 o'r weithdrefn – pan fydd cwyn yn cael ei gwrthod heb yn wybod i'r Aelod dan sylw am ei bod yn annerbyniadwy – ei bod yn angenrheidiol ac/neu yn ddymunol i hysbysu'r Aelod fod cwyn wedi'i gwneud yn ei erbyn ac wedi'i gwrthod;

- gofynion cyfrinachedd a gorfodi'r gofynion hynny yn ystod y gwahanol brosesau. Er enghraifft, a yw "gofyn i'r rhai sy'n cael copi o'r adroddiad barchu ei gyfrinachedd" (adran 4.6 o'r weithdrefn) yn ddigonol?; ac

- a yw darpariaethau adran 6 (archwiliadau troseddol cyfochrog) yn diwallu anghenion y Cynulliad Cenedlaethol o ran diogelu ei enw da pan fydd Aelod Cynulliad yn cael ei gyhuddo o ymddygiad troseddol difrifol?

11. Gan hynny, rwy'n argymell fod y Pwyllgor yn:

- adolygu'r gweithdrefnau ynghylch ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau Cynulliad, ac yn eu diwygio lle bo hynny'n briodol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

12. Pe digwydd i'r Pwyllgor dderbyn rhai o'r argymhellion hyn, neu'r cyfan ohonynt, rwy'n barod, fel Comisiynydd Safonau, i gynhyrchu fersiynau drafft o'r dogfennau gwahanol i'r Pwyllgor eu hystyried yn y Pedwerydd Cynulliad. Rwyf ar ddeall hefyd y gallai cyfreithwyr y Cynulliad graffu ar unrhyw gynigion newydd.

**Gerard Elias CF**
**Y Comisiynydd Safonau**
**Mawrth 2011**